

# Rhwydwaith Sentinel Cymru Wales Sentinel Network



Rhwydwaith  
Sentinel **Cymru**  
Wales Sentinel  
Network

Gwanwyn/Spring 2024



Mewn Partneriaeth â  
**Llywodraeth Cymru**  
In Partnership with  
**Welsh Government**



## Helo bawb!

Croeso i gylchlythyr diweddaraf Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Cymru.

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i anelu at gefnogi'r 22 safle ledled Cymru sydd wedi cofrestru gyda Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Cymru, ond mae croeso i chi rannu gyda phartïon eraill sydd â diddordeb.

Os hoffech i'ch gwefan gael ei chynnwys neu os oes gennych unrhyw straeon neu syniadau ar gyfer cylchlythyrau yn y dyfodol, cysylltwch â [Catherine.Collins@llyw.cymru](mailto:Catherine.Collins@llyw.cymru).

Rhwydwaith Safleoedd Sentinel.....	2
Parc Gwledig Loggerheads.....	2
Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion 6-12 Mai.....	5
Wythnos Rhywogaethau Ymledol 20 – 26 Mai.....	6
Planhigion 'Mai Di Dor' .....	7
Yn canolbwyntio ar: Malltod Castanwydd Pêr .....	7
Ffocws ar: Bioddiogelwch.....	9

## Rhwydwaith Safleoedd Sentinel

Grŵp o barciau a gerddi ledled Cymru gyfan yw'r rhwydwaith. Mae pob parc wedi'i leoli yn un o'r 22 Awdurdod Lleol ac mae pob safle yn derbyn dau ymweliad safle y flwyddyn gan Arolygwyr Iechyd a Hadau Planhigion APHA.

Nod y rhwydwaith yw gweithredu fel system rhybudd cynnar ar gyfer plâu a chlefydau planhigion yn ogystal â darparu cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid a digwyddiadau hyfforddi i wirfoddolwyr a staff. Mae cydweithwyr APHA yn cynnal gweithrediadau iechyd planhigion ac mae Llywodraeth Cymru yn cydlynnu'r prosiect.

Ym mhob cylchlythyr byddwn yn canolbwyntio ar un Safle Sentinel, gan ddarparu rhywfaint o gefndir i'r safle, rhai o'r coed a'r planhigion pwysig a geir yno, ac unrhyw beth a allai fod wedi'i nodi yn yr ymweliadau ddwywaith y flwyddyn.

Rydym yn dechrau ein hymweliadau â Safleoedd Sentinel gyda Pharc Gwledig Loggerheads.

## Parc Gwledig Loggerheads



Gan Saul Burton

Warden Cefn Gwlad

Mae Parc Gwledig Loggerheads yn lle arbennig iawn yn llawn bywyd gwylt a threftadaeth. Mae'n borth delfrydol i ymwelwyr sy'n dymuno crwydro Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gyda dalgylch mawr gan gynnwys Cilgwri a Glannau Mersi, mae'r parc yn croesawu dros 250,000 o ymwelwyr y flwyddyn.



Saif Loggerheads islaw clogwyni calchfaen dramatig Cwm Alun lle mae'r afon yn mynd i mewn i geunentydd coediog serth, a glaswelltiroedd agored a chudd. Mae calchfaen carbonifferaidd yn dylanwadu ar bob rhan o'r parc ac wedi cael effaith enfawr ar y diwydiant lleol. Cafodd y gwythiennau mwynau cyfoethog yn y graig eu cloddio'n helaeth am blwm yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Adeiladwyd yr Alyn Leete (Mill-race) 200 mlynedd yn ôl a gymerodd ddŵr o Loggerheads dros 5km i lawr y dyffryn i Gloddfa Bryn Celyn ger Rhydymwyn. Gyrrodd y dŵr a gariwyd gan y Leete olwynion dŵr a oedd yn darparu'r pŵer i bwmpio dŵr allan o'r pyllau glo, gan alluogi'r glowyr i gloddio o dan y bwrdd dŵr i dynnu mwy o fwynau.

Mae'r galchfaen nid yn unig wedi llunio'r dirwedd ond hefyd yn dylanwadu ar y planhigion sy'n tyfu yma, y glaswelltiroedd calchaid blodeuog ar ben y bryn a'r coetiroedd llaith ar lan yr afon. Mae glaswelltiroedd llawn rhywogaethau yn gartref i lawer o loynnod byw, gydag ardaloedd o balmant calchfaen yn cynnig lloches i fadfalloedd cyffredin, nadroedd defaid a gwiberod.



**LLWYBR LEETE**

Mae'r parc wedi'i ddynodi'n SoDdGA ac yn ACA oherwydd y glaswelltir calchfaen a'r coetir llawn coed ynn. Yn anffodus, mae'r coetir coed ynn wedi ei effeithio'n sylweddol gan glefyd coed ynn.

Roedd yr achos cyntaf a gofnodwyd yn Sir Ddinbych yn 2016. Ers hynny, mae'r clefyd wedi lledaenu'n gyflym iawn. Nid



**PIG YR ARAN RHUDDGOCH YN Y GLASWELLTIR.**

yn unig mae'r clefyd wedi lledaenu'n gyflym, ond wedi'u heintio, mae'r coed wedi dirywio'n gyflym iawn.

Ar ôl dau dymor o gwmpo coed, mae'r duedd yn dal i fod ar i fyny gyda 200 o goed yn gorfod cael eu cwmpo yn nhymor 2023/4. Dim ond coed sy'n golygu lefel annerbyniol o risg i'r llwybrau troed a ffiniau parciau sy'n cael eu cwmpo. Asesir y coed gan ddefnyddio methodoleg Asesiad Risg Coed Meintiol i ganfod lefel y risg ganddynt. Mae coed sydd wedi'u lleoli o fewn y coetir yn cael eu gadael i bydru'n naturiol gan fod coed marw yn rhan hanfodol o ecosystem y coetir.



#### DEFNYDDIWDYD "SPIDER MEWP" I GYRRAEDD COED OEDD ANGEN EU DYMCHWEL

Y broses naturiol yw i'r holl hadau ynn yn y pridd egino wrth i lefel y golau gynyddu. Rydym yn monitro'r adfywiad naturiol hwn i weld a oes unrhyw dystiolaeth o ymwrthedd yn y twf newydd.

Lle bo'n bosibl, rydym yn gadael y pren ar y safle i gynyddu y cynefin coed marw. Mewn rhai ardaloedd, mae

cyfyngiadau ffisegol y parc yn golygu bod angen i ni dynnu pren i gadw'r llwybr ar agor. Lle bo angen, rydym yn defnyddio contractwr logio gyda cheffylau i gael gwared ar y pren. Mae'r dull effaith isel hwn yn atal cywasgu pridd ac yn lleihau'r effaith negyddol ar y coetir.

Parc Gwledig Loggerheads –  
CAHNE Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy

Parc Gwledig Loggerheads,  
Loggerheads, Ffordd  
Rhuthun, Yr Wyddgrug. CH7  
5LH



# Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion 6-12 Mai

Mae Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion yn wythnos benodol bob blwyddyn o weithredu i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd ar sut i gadw ein planhigion yn iach. Nid yn unig hynny, ond mae'r Cenhedloedd Unedig wedi dynodi 12 Mai fel Diwrnod Rhyngwladol Iechyd Planhigion (IDPH) i godi ymwybyddiaeth fydeang o sut y gall diogelu iechyd planhigion helpu i roi terfyn ar newyn, lleihau tlogi, amddiffyn bioamrywiaeth a'r amgylchedd, a hybu datblygiad economaidd. Y thema eleni yw Iechyd Planhigion a masnach a gefnogir gan TG, gan dynnu sylw at e-fasnach ac e-Ffyto.

Bydd gweithgareddau Llywodraeth Cymru **ddydd Iau 9 Mai** yn bennaf ble byddwn yn cefnogi Digwyddiad Partner Blynyddol Action Oak ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd rhwng 9:30 a 15:00 gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca Davies. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i ddysgu am yr ymchwil sy'n digwydd yn y DU ar hyn o bryd i gefnogi amddiffyn rhywogaethau derw brodorol *Quercus robur* a *Q. petraea*. Yn y prynhawn bydd Taith a Sgwrs gydag Arolygwyr Iechyd Planhigion ym Mharc Bute - un o'n Safleoedd Sentinel. Byddwch yn barod am wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol gan LIC ac Action Oak gydag uchafbwyntiau'r dydd.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arddangos Rhwydwaith Gwyliadwriaeth Iechyd Planhigion Cymru (WPHSN) sy'n targedu bygythiadau biolegol goresgynnol i goed sydd wedi'u canfod yng Nghymru yn hanesyddol, neu sy'n debygol o fudo i Gymru gyda'r hinsawdd sy'n newid.

Byddwn hefyd yn tynnu sylw at ymgyrchoedd #MaiDiDor ac #IddynNhw i drafod cynefinoedd ac adnoddau ar gyfer pryfed peillio a sut mae hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth a dyfodol cynhyrchu bwyd; trafod Gwyddoniaeth y Dinesydd a sut y gall pawb helpu i fonitro plâu i nodi os ydynt yn eu gweld; a bod yn ddinesydd iechyd planhigion – arferion iechyd planhigion a phrynu planhigion/deunyddiau planhigion yn gyfrifol o ffynonellau cyfrifol i atal lledaeniad afiechydon neu blâu planhigion. Fel rhan o hyn, byddwn yn Niwrnod Bioamrywiaeth y Senedd ar 7 Mai.

## Crynodeb o weithgareddau cyfryngau cymdeithasol eraill i gadw llygad arnynt:

- Bydd **APHA** yn cynnal blog gwyddoniaeth ar achosion o Chwilen Colorado 2023 a gwybodaeth am fasnachu hadau ar-lein
- **Y Comisiwn Coedwigaeth**: bydd yn hyrwyddo dathliad o blanhigion a sut i gadw planhigion yn iach yn ogystal â blog clefyd coed ynn i godi ymwybyddiaeth o'r clefyd.
- **Mae Coedwigaeth yr Alban** yn cynllunio arddangosfa o CivTech Challenge Scotland

- Bydd **yr Ardd Fotaneg Frenhinol yn Kew** yn cynnal 'Diwrnod ym Mywyd Swyddog Iechyd Planhigion' yn dilyn David Hicks wrth gwblhau arolygiadau a chwariantinau.
- **Coed Cadw** – bydd yn canolbwyntio ar Wyfyn Ymdeithiwr y Derw, gan nodi beth i gadw llygad amdano.

### Dilynwch yr ymgyrchoedd:

Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion | Gweithredu Iechyd Planhigion

Action Oak

Pecyn cymorth rhanddeiliaid Iddyn Nhw

## Wythnos Rhywogaethau Ymledol 20 – 26 Mai



Mae Wythnos Rhywogaethau Ymledol yn wythnos flynyddol o godi ymwybyddiaeth a digwyddiadau i helpu i atal ymlediad, a lleihau effeithiau niweidiol, planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol.

Mae pum peth y gallwch eu gwneud i helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu:

- Cadwch unrhyw gychod, dillad, esgidiau ac offer a ddefnyddir mewn dŵr yn rhydd o rywogaethau estron ymledol – cofiwch **Gwirio Glanhau Sychu** ar ôl eu defnyddio.
- Mynd at Wraidd y Mater a pheidiwch â gadael i'ch planhigion gardd, pwll neu acwariwm fynd i'r gwyllt.
- Gofalwch am eich anifeiliaid anwes, peidiwch byth â'u rhyddhau na gadael iddynt ddianc i'r gwyllt. Mae'n greulon a gallai niweidio bywyd gwyllt arall.
- Cadwch olwg am y gorsen Asiaidd a rhywogaethau rhybudd eraill a chofnodwch unrhyw un rydych wedi'i weld.
- Os ydych yn mwynhau bod yn yr awyr agored, beth am wirfoddoli gyda Grŵp Gweithredu Lleol sy'n gweithio ar reoli rhywogaethau ymledol.

Am fwy o wybodaeth ewch i [Wythnos Rhywogaethau Ymledol » NNSS](http://www.nativespecies.org)  
([nonnativespecies.org](http://nonnativespecies.org))

## Planhigion 'Mai Di Dor'

Rydyn ni wedi colli tua 97% o ddolydd blodau ers y 1930au a gan eu bod wedi diflannu mae bwyd hanfodol ar gyfer pryfed peillio, fel gwenyn a gloënnod byw, wedi diflannu hefyd.

Ond gall dy laswellt helpu! Mae lawnt iach gyda rhywfaint o laswellt hir a blodau gwyllt o fudd i fywyd gwyllt, yn mynd i'r afael â llygredd a gall hyd yn oed gloi carbon o dan y ddaear. Gyda dros 20 miliwn o erddi yn y DU, mae hyd yn oed y darnau glaswelltog lleiaf yn ychwanegu at gyfran sylweddol o'n tir a allai, os cânt eu rheoli'n iawn, sicrhau manteision enfawr i natur, cymunedau a'r hinsawdd.

Dyma pam mae Plantlife yn galw ar bobl i gymryd rhan yn #MaiDiDor bob blwyddyn, a rhoi hwb i blanhigion gwyllt yn yr haf. Gyda #MaiDiDor, mae Plantlife yn ceisio newid ymddygiad pobl o ran sut maen nhw'n torri eu lawntiau. Eu cam cyntaf yw annog pobl i adael eu lawntiau i dyfu dros fis Mai. Yn ddelfrydol, byddai'n well ganddynt i bobl adael y gwair i dyfu am gyfnod hirach ac wrth i'r haf fynd yn ei flaen mae 'MaiDiDor' yn newid i 'MehefinBlodeuog' a 'GorffennafGwairHir'. Mae gadael y lawnt i dyfu tan yr haf ac yna torri a chasglu'r toriadau yn dynwared beth fyddai'n digwydd mewn dolydd gwair traddodiadol.

Gorau oll, i gael y buddion hyn y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw peidio torri eich lawnt tan fis Mai a thu hwnt!

Darllenwch fwy yn [Mai Di Dor - Plantlife](#)

## Yn canolbwyntio ar: **Malltod Castanwydd Pêr**

Mae Malltod Castanwydd Pêr yn glefyd dinistriol coed castanwydd pêr (coed yn y genws *Castanea*) a achosir gan y ffwng *Cryphonectria parasitica*. Gall hefyd effeithio ar nifer fach o rywogaethau planhigion eraill.

Fe'i mewnoforiwyd yn ddamweiniol i'r Eidal yn y 1930au ac mae wedi bod yn lledaenu yn Ewrop ers hynny.

Mae'r ffwng *Cryphonectria parasitica* wedi achosi epidemigau difrifol o falltod castanwydd pêr dros rannau helaeth o Ogledd America. Mae hefyd wedi effeithio ar y castanwydd pêr Ewropeaidd (*C. sativa*) dros ardal eang o gyfandir Ewrop.



**RHYCHAU CANCR © MICK BIDDLE FOREST RESEARCH**



**CANCER AR GOEDEN IFANC © MICK BIDDLE FOREST RESEARCH**

Cafodd y clefyd ei ddarganfod am y tro cyntaf yn y DU yn 2011, yna digwyddodd achosion pellach yn 2017 yn Nyfnaint, Dorset a de-ddwyrain Llundain. Mae'n fwyaf tebygol o ledaenu trwy fewnforio planhigion heintiedig o dir mawr Ewrop.

Mae malltod castanwydd pêr yn mynd i mewn i'r goeden trwy glwyfau a holltau. Mewn achosion lle mae'r goeden wedi'i himpio, mae'n digwydd o amgylch y man grafftio.

Mae'r symptomau'n cynnwys:

- Craciau yn y rhisgl sy'n datblygu'n gancr tywyll, suddedig.
- Colli rhisgl o amgylch y bôn, lle mae'r cancr o amgylch y bon ac yn lladd canghennau, gan achosi iddynt wywo.
- Dail brown wedi gwywo sy'n aros ar y goeden uwchben y cancr. Cyrff hadol oren ar y rhisgl. Gall y rhain greu twf oren hir mewn amodau llaith a elwir yn dendriliau. Mae'r tendriliau hyn yn cynhyrchu'r sborau sy'n lledaenu'r falltod.





Gall y rhisgl cancr droi yn frown llachar ar ganghennau iau mewn cyferbyniad â'r lliw gwyrdd arferol.

DANGOS Y MYCELIWM O DAN Y  
RHISGL © MICK BIDDLE FOREST  
RESEARCH

Y llynedd, canolbwyntiodd yr RHS ar iechyd Castanwydd Pêr yn eu hymgyrch 'Check a Chestnut'. Mae'r dudalen yn darparu gwybodaeth wych am adnabod y goeden yn ogystal â phlâu a chlefydau penodol i gadw llygad arnynt. Am fwy o wybodaeth dilynwch y ddolen yma: [Check a sweet chestnut | RHS / RHS Gardening](#)

I gael rhagor o wybodaeth am Falltod Castanwydd Pêr, dilynwch y dolenni isod:

Forest Research – [Adnoddau Malltod Castanwydd Pêr](#)

Woodland Trust – [Gwybodaeth am Falltod Castanwydd Pêr](#)

Os ydych yn credu eich bod wedi gweld Malltod Castanwydd Pêr ar eich safle sentinel, rhowch wybod i [Tree Alert](#)

## Ffocws ar: Bioddiogelwch

Mae bioddiogelwch planhigion yn cyfeirio at y mesurau a'r arferion a ddefnyddir i ddiogelu planhigion rhag plâu, clefydau a rhywogaethau ymledol a all niweidio poblogaethau planhigion amaethyddol, garddwriaethol neu naturiol. Mae'n cwmpasu gwahanol strategaethau sydd â'r nod o atal cyflwyno, lledaenu a sefydlu organebau niweidiol a allai fygwth iechyd, bioamrywiaeth, diogelwch bwyd a sefydlogrwydd economaidd planhigion.

Pwysleisiodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn 2010 fioddioegelwch fel dull strategol sy'n cwmpasu dadansoddi a rheoli risg i fywyd dynol, anifeiliaid a phlanhigion, ynghyd â phryderon amgylcheddol. Ei nod yw amddiffyn iechyd dynol, systemau amaethyddol a diwydiannau cysylltiedig trwy atal, rheoli a rheoli risgiau sy'n benodol i bob sector bioddioegelwch.

Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ein hymrwymiad ar y cyd i fioddioegelwch yn y mesurau bioddioegelwch planhigion Strategaeth Bioddioegelwch Planhigion Prydain 2023-2028. Ein gweledigaeth yw diogelu planhigion Prydain trwy bartneriaeth gref o lywodraeth, diwydiant a'r cyhoedd, gan weithio gyda'i gilydd i leihau a rheoli risgiau a achosir gan blâu a phathogenau planhigion, a hwyluso masnach ddiogel.

Gallai'r mesurau a gymerwn i ddiogelu ein bioddioegelwch planhigion gynnwys:

- **Rheoliadau cwarantín:** Rheoleiddio mewnforio a symud planhigion, cynhyrchion planhigion, ac organebau a allai fod yn niweidiol i atal cyflwyno plâu a chlefydau i ardaloedd newydd.
- **Gwylidwriaeth a monitro:** Monitro planhigion, cnydau ac ecosystemau naturiol yn rheolaidd i ganfod unrhyw arwyddion o blâu neu glefydau yn gynnar, gan ganiatáu ymyrraeth gyflym.
- **Rheoli plâu a chlefydau:** Gweithredu mesurau rheoli fel plaladdwyr, cyfryngau rheoli biolegol, arferion diwylliannol, a mathau o blanhigion ag ymwrthedd i reoli a lliniaru effeithiau plâu a chlefydau.
- **Ymwybyddiaeth ac Addysg y Cyhoedd:** Addysgu rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, garddwyr, diwydiannau, a'r cyhoedd yn gyffredinol am bwysigrwydd bioddioegelwch planhigion a sut y gallant gyfrannu at atal lledaeniad plâu a chlefydau.
- **Ymchwil ac arloesi** Buddsoddi mewn ymchwil i ddatblygu technolegau, offer a strategaethau newydd ar gyfer diogelu planhigion, gan gynnwys dulliau canfod cynnar, bridio ymwrthedd genetig, ac arferion rheoli plâu cynaliadwy.

## **Rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin ar Waith**

Mae'r Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) yn parhau â'r dull graddol o gyflwyno rheolaethau bioddioegelwch i drefn mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n symud o'r UE, y Swistir a Liechtenstein i Brydain. Daeth cam cyntaf rheolaethau mewnforio BTOM i rym ar 31 Ionawr 2024 a'r dyddiad nesaf fydd rheolaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith yw 30 Ebrill 2024.

Mae cyflwyno rheolaethau bioddioegelwch ar fewnforion i Brydain Fawr yn hanfodol i warchod y DU rhag clefydau niweidiol, fel *Xylella fastidiosa*. Uchelgais cyffredinol y BTOM yw darparu dull sy'n seiliedig ar risgiau o atal plâu a chlefydau rhag dod i mewn i'r DU a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar ein diwydiannau a'n gallu i allforio bwyd, yn ogystal â risgiau i'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd a'r economi ehangach.

Ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion, bydd y canlynol yn digwydd:

- 31 Ionawr 2024: Mae'r cam hwn yn cyflwyno'r gofyniad am dystysgrifau ffytoiechydol a gwiriadau dogfennol seiliedig ar risg ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion risg canolig o'r UE.
- 30 Ebrill 2024: Cyflwyno gwiriadau corfforol ac adnabod ar nwyddau risg canolig. Bydd y gwiriadau hyn, ynghyd â nwyddau risg uchel, yn cael eu symud i Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) neu Bwyntiau Rheoli (CPs). Rhaid i CPs fodloni'r un gofynion â BCP ond maent yn gyfleusterau archwilio mewndirol lle gellir cynnal gwiriadau lechydol a Ffytoiechydol o blanhigion a chynnyrch planhigion o dan oruchwyliaeth tollau. Bydd y cynllun POD yn dod i ben. Ni fydd y gwiriadau hyn yn digwydd ym Mhorthladdoedd Arfordir y Gorllewin ar hyn o bryd. Hefyd, bydd y Peilot Statws Gweithredwr Awdurdodedig yn dechrau ar y dyddiad hwn.
- Bydd oedi cyn gweithredu gwiriadau (a ffioedd cysylltiedig) ar nwyddau o'r UE, y Swistir a Liechtenstein, sy'n dod i mewn i Brydain Fawr drwy Borthladd rhestredig Arfordir y Gorllewin, i alinio hyn â diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol.

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

### Bioddiogelwch

- Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain – yn nodi ymrwymadau ar y cyd i amddiffyn bioddiogelwch planhigion o 2023-2028.
- Canllawiau Bioddiogelwch y Comisiwn Coedwigaeth – sut y gall bioddiogelwch atal lledaeniad plâu a chlefydau coed.
- Adnoddau Keep it Clean – yma gallwch ddod o hyd i bosteri argraffadwy a deunyddiau eraill ar gyfer y swyddfa a thu hwnt.
- Ffurflen Asesu Risg Bioddiogelwch – lawrlwythwch a'i theilwra ar gyfer eich gweithgareddau, gellir ei hychwanegu at asesiad risg sy'n bodoli eisoes.
- Modiwlau e-ddysgu Bioddiogelwch y Comisiwn Coedwigaeth – cofrestrwch ar gyfer mewngofnodi cyfrif – ar gyfer hyfforddiant bioddiogelwch manylach.
- E-ddysgu bioddiogelwch NNSS – cofrestrwch ar y wefan am gyfrif.
- Cynhaliodd Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus – seminar undydd ar bioddiogelwch, ac un arall ar barciau ym mis Mawrth 2024 – gweler y wefan am gyflwyniadau.

### Dolenni defnyddiol eraill

- Cofrestr Risg Iechyd Planhigion y DU
- Porth Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU
- Iechyd planhigion a choed | LLYW.CYMRU

- [Adnoddau Plâu a Chlefydau Forest Research](#)
- [CNC / Hysbysiadau iechyd planhigion statudol](#)
- [Adnoddau Plau a Chlefydau Observatree](#)
- [E-ddysgu Planhigion Iach](#) - cofrestrwch ar y wefan ar gyfer cyfrif – yn cynnwys iechyd a bioddiogelwch planhigion.
- [TreeAlert](#)